Llyfr y
Flwyddyn
Wales Book
of the Year

# GWOBR LLYFR Y FLWYDDYN 2024 – PECYN YMGEISIO

## MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

## TELERAU AC AMODAU

## FFURFLEN GAIS 2024

**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno: Dydd Llun 20 Tachwedd 2023***

** Os nad oes modd cyflwyno llyfr erbyn y dyddiad cau, cysylltwch â ni i drafod cyn 20 Tachwedd 2023.*

Mae Llyfr y Flwyddyn yn wobr flynyddol sy'n dathlu llenorion talentog Cymreig sy'n rhagori mewn ffurfiau llenyddol amrywiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Mae pedwar categori yn y ddwy iaith – Barddoniaeth, Ffuglen, Ffeithiol Greadigol a Phlant a Phobl Ifanc, gydag un o'r enillwyr categori hyn yn mynd ymlaen i ennill y Brif Wobr, ac yn hawlio'r teitl Llyfr y Flwyddyn.

Mae deuddeg gwobr, gyda chyfanswm o £14,000 ar gael i'r awduron llwyddiannus. Yn Gymraeg ac yn Saesneg mae pedwar enillydd categori, un enillydd Barn y Bobl ac un prif enillydd.

Mae Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn rhan annatod o weithgaredd Llenyddiaeth Cymru, ac yn cyfrannu tuag at ei strategaeth o ddathlu a chynrychioli diwylliant, awduron a threftadaeth lenyddol Cymru. Mae'r wobr yn rhoi llwyfan allweddol i awduron sy'n cyhoeddi cyfrolau am y tro cyntaf, yn ogystal â llwyfan arbennig i gynnig cydnabyddiaeth i rai o awduron amlycaf Cymru.

Caiff y rhestr fer, a fydd yn cynnwys tri llyfr ym mhob categori, ei chyhoeddi yn y gwanwyn, gydag enillwyr Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2024 yn cael eu datgelu mewn seremoni fyw yn ystod yr Haf.

## MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

Os gwelwch yn dda, darllenwch **feini prawf cymhwysedd** Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn fanwl cyn cyflwyno cais.

### ANGENRHEIDIOL:

1. Mai'r cyhoeddiad cyntaf o'r gwaith (naill ai yn Gymraeg neu Saesneg) yn y flwyddyn sy'n rhagflaenu'r wobr ydyw (1 Ionawr – 31 Rhagfyr 2023)
2. Rhaid i'r awdur(on) fod yn fyw ar ddyddiad cyflwyno'r llyfr i Llenyddiaeth Cymru.
3. Gellir ystyried gwaith gan awduron lluosog, ond rhaid i'r gyfrol gyfan greu gwaith llenyddol newydd ac unigryw, a bod yn amlwg berthnasol i Gymru a'r diwylliant Cymreig*. Er enghraifft, ni fydd blodeugerddi o waith datgysylltiedig gan awduron lluosog yn gymwys.
4. Bod cynnwys y gwaith yn waith na gyhoeddwyd yn flaenorol mewn casgliadau awdur unigol (ni fydd llyfrau sy'n cynnwys rhywfaint o waith cyhoeddedig blaenorol - er enghraifft cerddi unigol a gyhoeddir mewn cylchgronau - yn cael eu heithrio.)
5. Bod y gwaith yn gyfrol o farddoniaeth, ffuglen neu ffeithiol greadigol (wele nodyn isod), **NEU** fod y gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc ac wedi'i fwriadu ar gyfer darllenwyr hyd at 16 oed.
6. Bod y gwaith mewn print o'r diwrnod y rhyddheir y Rhestr Fer tan y caiff yr enillwyr eu cyhoeddi yn y seremoni wobrwyo.
7. Bod gwaith a gyflwynir i'r categorïau Barddoniaeth, Ffuglen neu Ffeithiol-Greadigol ar gyfer oedolion.
8. Rhaid cyflwyno'r gwaith i un categori yn unig.
9. Rhaid cyflwyno gwaith a gyhoeddir yn ddwyieithog i'w ystyried mewn un iaith yn unig, sef yr iaith a ysgrifennwyd y gwaith yn wreiddiol.

### Yn ogystal, rhaid iddo ateb o leiaf un o'r gofynion canlynol:

1. Fod wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg.
2. Fod wedi'i ysgrifennu yn Saesneg gan awdur a anwyd yng Nghymru neu a dderbyniodd ei addysg yng Nghymru.
3. Fod wedi'i ysgrifennu yn Saesneg gan awdur sy'n byw yng Nghymru.
4. Fod yn gwbl eglur o ran ei berthnasedd i Gymru a'r diwylliant Cymreig (diffiniad isod).

   **Os fyddwch yn cyflwyno llyfr o dan yr amod yma (4) yn unig, rhaid cyflwyno datganiad cefnogol fer ynghyd a'r ffurflen gais yn esbonio'r perthnasedd yn glir (uchafswm o 250 gair).**

## Diffiniad o waith sy'n gwbl eglur o ran ei berthnasedd i Gymru a'r diwylliant Cymreig

Ar rai achlysuron, gellir penderfynu bod gweithiau sy'n trafod ac/neu sy'n ychwanegu at themâu a ymdrinnir â nhw yn aml mewn meysydd llenyddol Cymreig yn gymwys er nad oes gan yr awdur unrhyw gysylltiadau ieithyddol, preswyl na llencynnol â Chymru.

## Nid yw'r canlynol yn gymwys ar gyfer y wobr:

1. Gwaith unigol a gyhoeddir o fewn blodeugerddi gan awduron lluosog, neu flodeugerddi o awduron lluosog lle nad yw'r casgliad cyfan yn creu gwaith llenyddol nodedig, neu gasgliadau sy'n bennaf yn cynnwys gwaith a gyhoeddwyd yn flaenorol
2. Gwaith sydd wedi'i ysgrifennu neu ei gyd-ysgrifennu gan rithawdur
3. Cyfieithiadau ac addasiadau
4. Sgriptiau, sgript ffilm a llyfrau lluniau

**Bydd penderfyniadau ar bob mater o gymhwysedd yn ôl disgresiwn Llenyddiaeth Cymru.**

## DIFFINNIR Y CATEGORÏAU FEL:

### a. Barddoniaeth

Casgliad newydd o gerddi gan un neu nifer o awduron sydd wedi'i fwriadu ar gyfer oedolion.

### b. Ffuglen

Llyfr newydd gan un neu nifer o awduron sydd wedi'i fwriadu ar gyfer oedolion. Croesawir pob genre o ffuglen.

### c. Plant a Phobl Ifanc

Llyfr newydd i blant a/neu pobl ifanc gan un neu nifer o awduron. Rhaid i geisiadau i'r categori Plant a Phobl Ifanc gwmpasu'n bennaf o gynnwys llenyddol yn hytrach na darluniadol. Rhaid iddo hefyd fod wedi'i fwriadu ar gyfer darllenwyr hyd at 16 oed. Mae ffuglen, barddoniaeth a ffeithiol greadigol i gyd yn gymwys a rhaid iddynt fodloni'r meini prawf a fanylir yn a, b & ch, ac eithrio oedran y darllenydd.

### ch. Ffeithiol Greadigol

Diffiniwn ffeithiol greadigol fel naratif ffeithiol lle mae creadigrwydd y rhyddiaith yn ganolog i natur y gwaith. Mae'r mathau o lenyddiaeth a ellir fod yn gymwys yn cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i, gofiannau, bywgraffiadau, hanes cymdeithasol, neu ysgrifennu teithio.

Mae gwaith sy'n bennaf yn academaidd neu'n ffeithiol yn annhebygol o gael ei ystyried ar gyfer y categori hwn oni bai y gellir dangos naratif cryf a chydran greadigol. Os nad yw hyn yn amlwg o'r teitl a'r broliant, darparwch ddatganiad ategol byr sy'n egluro'r rhesymeg dros y perthnasedd yn glir (uchafswm o 250 gair).

**Llenyddiaeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau terfynol ar faterion yn ymwneud â'r meini prawf. Bydd y penderfyniadau yn derfynol ac yn cael eu cadarnhau ar ôl y dyddiad cau.**

Os oes gennych unrhyw amheuaeth am gymhwysedd llyfr ar gyfer Gwobr Llyfr y Flwyddyn, cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru: LLYF-WBOTY@llenyddiaethcymru.org

## TELERAU AC AMODAU

I gyflwyno eich llyfrau, anfonwch **1 copi caled a pdf* o bob llyfr** i'r cyfeiriadau isod erbyn **dydd Llun 20 Tachwedd 2023**:

**PDF:**
LLYF-WBOTY@llenyddiaethcymru.org

**Copi caled:**
Gwobr Llyfr y Flwyddyn,
Llenyddiaeth Cymru,
Canolfan Glyn Jones,
Canolfan Mileniwm Cymru,
Plas Bute, Caerdydd,
CF10 5AL

*I leihau effaith amgylcheddol y wobr rydym yn gofyn i chi gyflwyno 1 copi caled a pdf o bob llyfr. Os yw'r ffeil yn rhy fawr i'w hatodi mewn ebost, anfonwch trwy WeTransfer, OneDrive, neu ddull rhannu ffeil arall.

**Noder**, os gwelwch yn dda mae'n bosib y byddwn yn gofyn am hyd at 4 copi caled ychwanegol o'r llyfr gennych i gynorthwyo a'r broses feirniadu neu i farchnata'r wobr.

**Yn ychwanegol**, dylid anfon copi o'r ffurflen hon ynghyd â'r eitemau canlynol ar gyfer pob llyfr a gyflwynir:

- llun hi-res o glawr y llyfr (gan gynnwys manylion artist os yn berthnasol)
- llun hi-res o'r awdur (gan gynnwys manylion ffotograffydd)
- Taflen Wybodaeth Ymlaen Llaw (AI/AIS) ar gyfer y llyfr, os yw ar gael
- disgrifiad byr/broliant y llyfr
- bywgraffiad byr yr awdur a manylion cyswllt (e-bost)

**Noder os gwelwch yn dda:** Dim ond yn dilyn derbyn yr holl eitemau uchod y bydd Llenyddiaeth Cymru yn cadarnhau fod y teitlau wedi eu cyflwyno.

- Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau cytundeb awdur i gyflwyno llyfrau a wybodaeth i Wobr Llyfr y Flwyddyn.

- Defnyddir unrhyw gopïau caled a gyflwynir gan gyhoeddwyr at bwrpasau beirniadu, hyrwyddo a gweinyddiaeth. Nid oes modd dychwelyd unrhyw llyfrau.

- Cyfrifoldeb y cyhoeddwyr yw nodi i ba gategori y caiff pob llyfr ei gyflwyno. Os yw'r beirniaid yn dymuno ystyried llyfr mewn categori arall, bydd Llenyddiaeth Cymru yn cysylltu â'r cyhoeddwr/awdur i'w hysbysu.

- Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw nodi sut y dylid rhannu unrhyw wobrau ariannol a / neu dlysau os bydd llyfr a ysgrifennwyd gan awduron lluosog yn ennill unrhyw un o'r categorïau neu brif wobrau.

- Fel amod cyflwyno, mae cyhoeddwyr ac awduron yn cytuno i gydweithio â Llenyddiaeth Cymru a'i phartneriaid i hyrwyddo Gwobr Llyfr y Flwyddyn.

- Disgwylir i'r awduron ar restrau byrion y wobr gydweithredu a'r wasg yn dilyn cyhoeddiadau perthnasol, yn ogystal a chydweithio â Llenyddiaeth Cymru i hyrwyddo'r wobr a mynychu seremoni 2024 (cyhoeddir y cynlluniau yn y flwyddyn newydd).

- Bydd gofyn i'r enillwyr a'r awduron ar y Rhestr Fer fod ar gael i wneud cyfweliadau yn dilyn y cyhoeddiadau, gan gynnwys cydweithio a Llenyddiaeth Cymru i greu pecynnau fideo i hyrwyddo eu gwaith a'r gwobrau (gellir gweld enghreifftiau o flynyddoedd diweddar yma).

- Gall y beirniaid ystyried llyfrau heb eu cyflwyno, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r meini prawf cymhwysedd. Bydd Llenyddiaeth Cymru yn cysylltu â'r cyhoeddwr i ofyn am lyfrau a gwybodaeth bellach yn yr achos hwn.

Llyfr y Flwyddyn Wales Book of the Year

# FFURFLEN GYFLWYNO 2024

| | |
|---|---|
| **Cyhoeddwr** | |
| **Enw Cyswllt** | |
| **Ebost** | |
| **Rhif ffôn** | |

## Llyfrau Cymraeg

| Teitl | ISBN | Enw'r Awdur | Dyddiad Cyhoeddi | Categori |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Llyfrau Saesneg

| Teitl | ISBN | Enw'r Awdur(on) | Dyddiad Cyhoeddi | Categori |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Rwy'n cadarnhau fod:**

1. yr awdur(on) a nodir uchod wedi cytuno i'r cyhoeddwr gyflwyno ei llyfr a gwybodaeth berthnasol i Llenyddiaeth Cymru | Gwobr Llyfr y Flwyddyn.
2. y teitlau uchod yn cydymffurfio â Meini Prawf Cymhwysedd Gwobr Llyfr y Flwyddyn, a fy mod wedi darllen ac yn cytuno â'r Termau ac Amodau.
3. y cyhoeddwr yn cytuno i Llenyddiaeth Cymru ddefnyddio'r deunydd hyrwyddo a gyflwynir (lluniau o gloriau cyfrolau, lluniau a bywgraffiadau awduron a broliannau'r cyfrolau) ar gyfer pwrpasau hyrwyddo Gwobr Llyfr y Flwyddyn a bod unrhyw gydnabyddiaethau u gofynnol wedi'u nodi yn y cais.
4. y cyhoeddwr yn cytuno i gynorthwyo Llenyddiaeth Cymru gyda marchnata y llyfrau maent yn cyflwyno i'r wobr, ac sydd yn cyrraedd y rhestr fer neu'n ennill unrhyw wobrau.
5. y cyhoeddwr yn cytuno i anfon at Llenyddiaeth Cymru hyd at 4 copi ychwanegol o'r llyfrau i gynorthwyo a'r broses feirniadu neu farchnata.

**Enw:**

**Teitl swydd:**

**Arwyddwyd:**

**Dyddiad:**

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Gyda chefnogaeth
Ymddiriedolaeth Rhys Davies

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL